Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

PDF Argraffu Cyfeirnodi

ROBERTS, ROBERT HENRY (1838-1900), gweinidog y Bedyddwyr a phrifathro Coleg Regent's Park, Llundain

Enw: Robert Henry Roberts
Dyddiad geni: 1838
Dyddiad marw: 1900
Plentyn: J.E. Roberts
Rhiant: John Nathan Roberts
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog y Bedyddwyr a phrifathro Coleg Regent's Park, Llundain
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg
Awduron: Benjamin George Owens, Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yng Nghaerfyrddin yn 1838, yn fab i John Nathan Roberts, gwerthwr offer haearn yn y dref a diacon yn y Tabernacl. Bu'n fyfyriwr yng Ngholeg Presbyteraidd Caerfyrddin o 1852 i 1857, ac yng Ngholeg y Bedyddwyr, Bryste, o hynny hyd 1859, pryd y graddiodd yn B.A. o Brifysgol Llundain. Ordeiniwyd ef yn Bootle, 1861, symudodd i Cornwall Road, Notting Hill, Llundain, yn 1869, ac oddi yno yn 1891 i Goleg Regent's Park, yn brifathro ac athro diwinyddiaeth. Ymddiswyddodd yn 1896, a bu farw yn Folkestone, 16 Ebrill 1900. Etholwyd ef yn llywydd Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr ac Iwerddon yn 1892. Ysgrifennodd (1) *Prayer and Contemporary Criticism. Five Sermons*, 1873, a gyflwynwyd i aelodau Cornwall Road; (2) *The Witness of the Bible*, 1892 ei araith o gadair yr Undeb; a (3) *The Spiritual Mind*, 1902, dan olygiaeth ei fab, y Parch. J. E. Roberts, Manceinion.

Brawd iddo oedd FREDERICK THOMAS ROBERTS (bu farw 28 Gorffennaf 1918), meddyg, athro meddygiaeth yn University College, Llundain, ac awdur llawlyfr meddygol a aeth i ddeg arg.; cafodd D.Sc. er anrhydedd gan Brifysgol Cymru yn 1910. (*Who was Who*.)

Awduron

Benjamin George Owens

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Walter J. Evans, NLW MS 10329B: Carmarthen Presbyterian College roll of students

E. Pan Jones, *Oriel Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin: yn cynwys hanes yr holl fyfyrwyr fu yn y coleg o 1796 hyd 1899*(Merthyr Tydfil 1909), 77

Baptist Handbook, 1901 (llun)

The Baptist Magazine (1809â€“1904), 1891, 1 (darlun); 1900, 249

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

British Museum. Catalogue of Printed Books (1882)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20804757

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Owens, B. G., & Jenkins, R. T., (1953). ROBERTS, ROBERT HENRY (1838-1900), gweinidog y Bedyddwyr a phrifathro Coleg Regent's Park, Llundain. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Medi 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ROBE-HEN-1838

Copïo'r cliprwydd

LLGC
NLW
LLYFRGEL
THE NATI
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government